

# Sylfeini Moesegol a Chyfreithiol

## Dyletswydd a Phenderfyniad (1)

Mae'r gyfres hon o 10 blog wedi'u hanelu at bobl sydd wedi cwblhau modiwl 1 neu fodiwlau 1 a 2 o Fframwaith Deilliannau Arfaethedig Care Aims. Y nod yw rhoi darlun cyflenwol o'r ffyrdd y gall y fframwaith lywio penderfyniadau diffynadwy ynghylch dyletswydd. Nid yw'r gyfres wedi'i chynllunio i ddarparu trosolwg cyflawn o Care Aims nac i ddisodli presenoldeb yngngweithdai Care Aims.

Mae ysgrifennu'r blog wedi amlygu i'r awdur ehangder a chydgysylltiad y fframwaith Care Aims. Y gobaith yw y bydd blogiau yn y dyfodol yn cyffwrdd ar feysydd o'r fframwaith sy'n cael eu cyflwyno neu eu trosglwyddo'n gryno yn y gyfres hon.

Mae Geiriadur Collins yn diffinio dyletswydd fel “tasg neu weithred y mae person dan rwymedigaeth i’w chyflawni am resymau moesol neu gyfreithiol”[1]. Mae'r diffiniad hwn yn ein hatgoffa o'r angen i ystyried y gyfraith a moeseg wrth lunio penderfyniadau ynghylch dyletswydd.

Fel arfer, diffinnir Dyletswydd Gofal fel “gwneud yr hyn sy'n rhesymol”. Ond beth sy'n rhesymol? Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn nodi, "Yn gyffredinol, [bod y] gyfraith yn gosod dyletswydd gofal ar ymarferydd gofal iechyd mewn sefyllfaoedd lle mae'n ‘rhesymol ragweladwy’ y gallai'r ymarferydd achosi niwed i gleifion drwy eu gweithredoedd neu eu hepgoriadau”[2]. Mae hyn yn gosod y cysyniad o risg o niwed wrth wraidd penderfyniadau ynghylch dyletswydd.

Gan droi at foeseg, amlygir fel arfer bedair egwyddor foesegol allweddol fel rhai sy'n llywio penderfyniadau biofeddygol ynghylch dyletswydd.Mae'r egwyddorion hyn yn parchu ymreolaeth; buddioldra; anfaleistra; a chyfiawnder. Mewn geiriau eraill, mae'r rhain yn ymwneud â chefnogi gwneud dewisiadau gwybodus; gwneud daioni; peidio â gwneud niwed; bod yn deg ac yn gyfiawn.



Mae Penderfynu ar y Cyd (PaC) yn fframwaith cyfoes sy'n cefnogi penderfyniadau cydweithredol mewn sefyllfaoedd lle mae'r ymarferydd yn cyflwyno amrywiaeth o opsiynau i'r person y maent yn gweithio gydag ef. Yn hyn o beth, mae PaC yn canolbwyntio ar y cyntaf o'r egwyddorion moesegol a amlinellir uchod – gan barchu ymreolaeth drwy hyrwyddo cydsyniad gwybodus yn weithredol.

Mae Fframwaith Deilliannau Arfaethedig Care Aims yn cefnogi ymarferwyr i ddefnyddio set ddiffynadwy o egwyddorion i resymu a chofnodi eu penderfyniadau ynghylch dyletswydd gan ddefnyddio pob un o'r pedair egwyddor foesegol a amlinellir uchod. Er enghraifft, mae'n hyrwyddo defnydd cyfiawn o adnoddau drwy annog ymarferwyr i ystyried yr effaith ar y gymuned ehangach o ddewis un cam gweithredu yn lle un arall. Mae hefyd yn arwain ymarferwyr i ganolbwyntio ar risg, buddion a niwed i les ym mhob agwedd o'u penderfyniadau. Yn olaf, mae'r fframwaith yn mynd y tu hwnt i barch at ymreolaeth (cydsyniad gwybodus) i roi pwyslais ar hwyluso ymreolaeth drwy ganolbwyntio ar hunan-reoli ac annibyniaeth.

Mae'r blog nesaf yn y gyfres hon yn edrych yn fanylach ar ymreolaeth fel egwyddor foesegol sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau.Mae'n canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng parchu a chreu ymreolaeth.

## Cyfeiriadau


1 https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/duty

2 https://www.rcn.org.uk/get-help/rcn-advice/duty-of-care

3 Beuchamp and Childress (2001). Principles of Biomedical Ethics, OUP, 5th Edition.

4 https://www.bmj.com/content/309/6948/184

5 https://www.england.nhs.uk/shared-decision-making/why-is-shared-decision-making- important/shared-decision-making-to-meet-the-ethical-imperative/